Diben y lwfans hwn yw'ch helpu i brynu unrhyw offer a nodir yn yr Asesiad Anghenion. Yn ogystal, gallwch ei ddefnyddio i dalu unrhyw gostau trwsio, cymorth technegol, yswiriant neu gostau gwarant estynedig sy'n codi o fod yn berchen ar yr offer hwnnw, y mae'ch awdurdod lleol wedi cytuno arnynt.

Argymhellwn eich bod yn yswirio'ch holl offer arbenigol, ac mae modd i chi ddefnyddio'ch DSA i dalu'r premiymau yswiriant ychwanegol. Yn ogystal, gall eich awdurdod lleol (neu'r OU) ad-dalu costau y mae'n rhaid i chi eu talu i rentu, yn hytrach na phrynu, darn mawr o offer os bydd hyn yn arbed mwy o arian.

Gallwch wneud cais am y lwfans offer arbenigol ar unrhyw adeg yn ystod eich cwrs. Gall adroddiad yr asesiad anghenion DSA gyngori eich bod yn cael rhywfaint o hyfforddiant cychwynnol wrth ddefnyddio unrhyw offer a argymhellir. Byddai cost yr hyfforddiant hwn yn cael ei dalu gan y rhan o'r DSA ar gyfer eich cynorthwy-ydd anfeddygol. Os oes gennych gontract cymorth neu warant gyda chyflenwr eich offer, dylech nodi na fydd yn cael ei anrhydeddu efallai os bydd cyfrifiadur sydd gennych yn methu oherwydd eich bod wedi llwytho meddalwedd ychwanegol arno nas argymhellwyd yn adroddiad asesiad anghenion DSA.

Os byddwch yn gwneud cais am help tuag at ddiwedd eich cwrs, efallai y byddwch yn gallu cael darn newydd o offer o hyd os ceir tystiolaeth o angen, ond efallai y bydd eich awdurdod lleol (neu'r OU) yn gofyn i chi ystyried a oes dewisiadau amgen yn bosib, ar wahân i brynu offer, a fyddai'n arbed mwy o arian. Er enghraifft, gallech rentu neu logi offer gan gyflenwr neu ei fenthyca gan eich prifysgol neu goleg. Gallai dewisiadau nad ydynt yn rhai TG, fel cymorth dynol, fod yn fwy effeithiol pan fydd dim ond ychydig wythnosau o'r cwrs ar ôl.

Lwfans cynorthwy-ydd anfeddygol

Gallai'r lwfans hwn ddarparu, gyda chytundeb eich awdurdod lleol ymlaen llaw, ar gyfer unrhyw gynorthwywyr, megis darllenwyr, dehonglwyr iaith

arwyddion, rhywun i gymryd nodiadau a chynorthwywyr anfeddygol eraill y bydd eu hangen arnoch er mwyn manteisio'n llawn ar eich cwrs. **Nid** diben DSAs yw helpu gyda gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig ag anabledd, y byddai'n rhaid i chi eu talu os byddech yn dilyn eich cwrs neu beidio. Gallai'ch adran gwasanaethau cymdeithasol lleol eich helpu i dalu'r costau personol hyn.

Os oes gennych anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, gallech gael arian gan eich awdurdod lleol (neu'r OU) dan y lwfans hwn. Gallwch ddefnyddio hwn i dalu am hyfforddiant sgiliau astudio er mwyn eich helpu i oresgyn problemau sy'n codi o'ch dyslecsia os argymhellwyd hyn mewn asesiad anghenion DSA a gynhaliwyd gan unigolyn cymwys addas. Dylai hyfforddiant sgiliau astudio gael ei ddarparu gan diwtoriaid arbenigol, a allai fod ar gael yn eich prifysgol neu goleg, er bod gennych yr hawl i drefnu darparwr arall os yw hynny'n fwy priodol. Ni allwch ddefnyddio'r lwfans i dalu am hyfforddiant ychwanegol mewn pynciau sy'n rhan o'ch cwrs.

Lwfans Cyffredinol

Gellir talu'r lwfans hwn ar gyfer gwariant arall sy'n gysylltiedig ag anabledd. Gallwch ei ddefnyddio, gyda chytundeb eich awdurdod lleol ymlaen llaw, i brynu eitemau megis tapiau a phapur Braille, neu ei ychwanegu at y ddau lwfans arall yn ôl yr angen.

Costau teithio

Os bydd yn rhaid i chi dalu costau teithio ychwanegol i fynychu'ch prifysgol neu goleg oherwydd eich anabledd, gallai'ch awdurdod lleol (neu'r OU) fod yn gallu helpu gyda'r rhain. Ni fydd unrhyw gostau teithio o'r math hwn yn dibynnu ar eich incwm. Fel arfer, ni fyddwch yn gymwys i gael help gyda chostau teithio bob dydd y byddai disgwyl i unrhyw fyfyrwr eu talu. Gall eich awdurdod lleol (neu'r OU) roi rhagor o gyngor i chi.

12 Sut mae modd i mi ddarganfod yr hyn y bydd ei angen arnaf?

Bydd eich awdurdod lleol (neu'r OU) yn gofyn i chi gael asesiad anghenion DSA. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd cyfateb eich anghenion penodol gydag anghenion eich cwrs arfaethedig er mwyn i chi gael yr help y bydd ei angen arnoch.

Rhaid i unigolyn sy'n meddu ar brofiad arbenigol mewn canolfan asesu annibynnol, neu mewn canolfan yn eich prifysgol neu goleg, gynnal yr asesiad anghenion DSA.

Os bydd angen i chi gael help i dalu costau teithio er mwyn mynychu'r asesiad anghenion DSA, dylech holi'ch awdurdod lleol (neu'r OU) a ydynt yn gallu helpu oherwydd mae modd defnyddio'r DSA cyffredinol i dalu am hyn.

Ni ddylech drefnu asesiad anghenion DSA heb gadarnhau yn gyntaf gyda'ch awdurdod lleol (neu'r OU) eu bod yn cytuno i chi wneud hynny, a'u bod yn cymeradwyo'ch dewis o ran canolfan asesu. Yn aml, bydd gan yr awdurdod lleol (neu'r OU) ffynhonnell y byddant yn ei ffafrio (gweler **atodiad 2**).

Gellir defnyddio'r DSA i dalu'r ffi y bydd aseswyr yn ei chodi am gynnal asesiad anghenion DSA. Byddwch yn cael adroddiad am hyn i helpu'ch awdurdod lleol (neu'r OU) i asesu'ch hawl. Cyngorwn yn gryf y dylai'ch prifysgol neu goleg, yn enwedig os yw'n cyflogi cynghorydd anabledd, fod yn gysylltiedig â'ch cais DSA ac y dylai weld yr adroddiad a'i argymhellion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eich bod yn cael y cymorth y mae ei angen arnoch. Dylai asesiad anghenion DSA nodi'r mathau o offer a'r cymorth arall y bydd ei angen arnoch, faint y bydd yn ei gostio a ble i'w gael. Efallai y gofynnir i Ganolfannau Asesu roi mwy nag un dyfynbris. Fodd bynnag, bydd angen i'ch awdurdod lleol (neu'r OU) gytuno ar unrhyw gymorth a argymhellir.

Yn ogystal, dylai'r adroddiad nodi unrhyw hyfforddiant y bydd angen i chi ei gael efallai er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r offer a argymhellir. Gallwch ddefnyddio'r adroddiad fel tystiolaeth ategol hefyd wrth bennu trefniadau arholi arbennig pan fyddwch ar eich cwrs.

Os bydd eich anabledd yn datblygu i fod yn fwy difrifol yn nes ymlaen yn ystod eich cwrs, gallwch wneud cais bod asesiad anghenion DSA arall yn cael ei gynnal i nodi unrhyw gymorth ychwanegol y bydd ei angen arnoch efallai.

13 Pa mor gyflym y bydd modd trefnu asesiad anghenion DSA?

Ar ôl i'ch awdurdod lleol (neu'r OU) bennu'ch cymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr ac ar ôl i chi ddarparu tystiolaeth ategol o'ch anabledd neu'ch anhawster dysgu penodol gan arbenigwr priodol, gellir trefnu asesiad anghenion DSA ymhell cyn dechrau'r tymor, a hyd yn oed cyn y bydd gennych le wedi'i gadarnhau mewn sefydliad.

Holwch eich awdurdod lleol (neu'r OU) am ragor o wybodaeth. Yna, efallai y bydd angen i chi gael asesiad ychwanegol pan fyddwch yn cychwyn ar eich cwrs er mwyn sicrhau y bodlonir yr anghenion penodol sydd gennych ar eich cwrs. Gall myfyrwyr sy'n dilyn cwrs yn barod wneud cais ar unrhyw adeg.

14 A oes modd i mi gael offer cyn i'm cwrs gychwyn?

Mae hyn yn bosib. Ar ôl i'ch awdurdod lleol (neu'r OU) bennu eich bod yn gymwys i gael DSA, mae ganddo'r disgrisiwn i dalu am offer arbenigol a argymhellir mewn adroddiad asesiad DSA yn fuan cyn i'ch cwrs gychwyn, er mwyn i chi allu ei ddefnyddio o'r cychwyn cyntaf gyda'ch astudiaethau. Fodd bynnag, bydd eich awdurdod

lleol (neu'r OU) yn gofyn am dystiolaeth eich bod wedi cael lle ar eich cwrs cyn iddo ystyried gwneud hynny. Os na fyddwch yn dilyn y cwrs, rhaid i chi ddychwelyd unrhyw offer y byddwch wedi'i gael i'ch cyflenwr a thalu unrhyw gostau sy'n codi. Os na fyddwch yn gwneud hyn neu os na fydd modd i chi wneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am yr offer.

15 Beth fydd yn digwydd i'r offer pan fydd fy nghwrs yn dod i ben?

Byddwch chi yn parhau i fod yn berchen ar yr holl eiddo a brynwyd ac y talwyd amdano gan eich DSA. Ar ddiwedd eich cwrs, efallai y byddwch yn penderfynu cynnig yr offer i'ch prifysgol neu goleg, neu i'ch awdurdod lleol (neu'r OU) at ddefnydd myfyrwyr eraill. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu dilyn cwrs arall (er enghraifft, cwrs 'ar-ddiwedd' neu gwrs ôl-raddedig), bydd unrhyw offer a gawsoch yn flaenorol yn cael ei ystyried pan ystyrir eich cais am gymorth.

16 A fydd yn rhaid i mi ad-dalu DSAs os byddaf yn gadael fy nghwrs yn gynnar?

Efallai; efallai y bydd yn rhaid i'ch awdurdod lleol (neu'r OU) adennill rhywfaint o'ch DSA neu'ch DSA cyfan os byddwch yn gadael eich cwrs. Dim ond arian yr ydych wedi'i gael ar gyfer cymorth neu offer nad ydych wedi'i brynu neu ei ddefnyddio eto y byddant yn gofyn i chi ei ddychwelyd.

17 Beth os byddaf yn trosglwyddo i gwrs arall a bydd angen offer gwahanol arnaf?

Ar ôl i chi gael y cyfanswm uchaf o ran y lwfans offer arbenigol gan eich awdurdod lleol (neu'r OU), ni fydd modd i chi gael unrhyw lwfans offer arbenigol pellach. Os na fyddwch wedi defnyddio'ch holl lwfans offer arbenigol, bydd y swm sy'n weddill ar gael ar gyfer eich ail gwrs, os bydd ei angen arnoch. Byddwch yn gymwys i gael y lwfansau a'r costau teithio eraill ar gyfer eich cwrs newydd o hyd. Cofiwch, efallai na fyddwch wedi cael yr uchafswm o ran y lwfans offer eto, neu efallai y bydd modd i chi ychwanegu ato gan ddefnyddio'r lwfans cyffredinol ar gyfer eich cwrs newydd.

18 Beth os bydd yn rhaid i mi ailadrodd rhan o'm cwrs?

Efallai y bydd eich awdurdod lleol (neu'r OU) yn gallu parhau i wneud taliadau DSA i chi os bydd yn rhaid i chi ailadrodd cyfnodau astudio neu os bydd angen cyfnod astudio ychwanegol arnoch.

19 Beth ddylwn i ei wneud os gwrthodir fy nghais neu os na fyddaf yn fodlon?

Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o gyngor i chi ynghylch yr hyn i'w wneud os na fyddwch yn fodlon ac os ydych yn teimlo eich bod yn dymuno apelio neu gwyno.

Cyn penderfynu ar yr hyn i'w wneud, dylech sicrhau eich bod wedi cyflawni eich cyfrifoldebau chi. Er enghraifft, a ydych wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennau y gofynnwyd i chi eu darparu, neu gymryd y camau angenrheidiol mewn da bryd?

Yr hyn y dylech ei wneud os ydych yn dymuno apelio

Mae gwneud apêl yn wahanol i wneud cwyn. Os byddwch yn teimlo bod yr awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn eich achos chi er enghraifft, ynghylch a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol, neu swm y cymorth ariannol y mae gennych yr hawl i'w gael, dylech ystyried apelio.

Dylai apelïadau ymwneud â'r canlynol:

- Materion cyfreithiol;
- Penderfyniadau a wnaethpwyd neu gamau a gymrwyd ar sail dehongliad o'r gyfraith neu reoliadau; neu
- Fethiant i gyflawni ymrwymïadau.

Os bydd eich awdurdod lleol yn gwrthod eich cais am DSA, dylech holi am ei resymau dros y penderfyniad hwn, a gofyn iddo adolygu'ch achos.

Os ydych yn fodlon â'r ffordd y mae'r awdurdod lleol wedi delio â'ch cais (mae wedi bod yn effeithlon ac yn gwrtais ac ati) ond os ydych yn teimlo bod y penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud yn eich achos chi, dylech ofyn i'r awdurdod lleol roi gwybodaeth i chi ynghylch sut i apelio.

Gallai cynghorydd anabledd, Adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu Undeb Myfyrwyr eich prifysgol neu goleg eich helpu gydag apêl.

Yr hyn y dylech chi ei wneud os ydych yn dymuno cwyno

Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â chi, dylech ofyn i'r awdurdod lleol rhoi manylion i chi am ei system er mwyn delio â chwynion.

Mae ein llyfryn 'Canllaw i gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch yn 2009/10' yn cynnwys gwybodaeth fanylach am apeliadau a chwynion ac mae modd gweld copi ohono ar-lein trwy droi at www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk.

Os ydych yn fyfyrwr gyda'r Brifysgol Agored, dylech gysylltu â'r Brifysgol Agored gan ofyn am fanylion ynghylch ei gweithdrefn gwyno.

20 Pa gymorth ariannol arall sydd ar gael?

Os ydych yn fyfyrwr ôl-raddedig, dim ond yr adrannau sy'n delio â'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a budd-daliadau a fydd yn berthnasol i chi.

Os ydych yn fyfyrwr israddedig amser llawn (gan gynnwys dysgwyr o bell na allant fynychu eu cwrs am reswm sy'n ymwneud â'u hanabledd), efallai y byddwch yn gymwys i gael y canlynol:

- benthyciad myfyrwyr er mwyn talu ffioedd dysgu;
- Grant Dysgu'r Cynulliad o hyd at £2,906 y flwyddyn;
- neu Grant Cymorth Arbennig* o hyd at £2,906 y flwyddyn

*Bydd myfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau'r wladwriaeth (megis Cymhorthdal Incwm neu'r Budd-dal Tai) pan fyddant yn astudio, yn gallu gwneud cais am Grant Cymorth Arbennig o hyd at £2,906 y flwyddyn yn hytrach na Grant Dysgu'r Cynulliad. Mae'r Grant Cymorth Arbennig yn dibynnu ar sefyllfa ariannol y myfyrwr yn yr un modd ag y mae Grant Dysgu'r Cynulliad, ond ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei ystyried pan fydd yn asesu cais myfyrwr am fudd-daliadau prawf modd (budd-daliadau sy'n dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol).

Bydd ffioedd dysgu yn cael eu pennu yn ôl y man lle y byddwch yn astudio a'r cwrs y byddwch yn ei ddewis. O flwyddyn academaidd 2009/10, codir ffi dysgu hyblyg wedi'i gohirio o hyd at £3,225 ar fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n penderfynu astudio yma, a byddant yn manteisio ar grant ffioedd dysgu o hyd at £1,940 y flwyddyn. Codir ffioedd ar fyfyrwyr sy'n dewis astudio rywle arall yn y DU yn unol â threfniadau codi ffioedd y wlad y byddant yn astudio ynddi, a'r rhai a bennir gan y sefydliad. Ni fydd myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau y tu allan i Gymru yn gallu cael y grant ffioedd dysgu.

Esbonnir y system cyllid i fyfyrwyr yn fanylach yn ein llyfryn 'Canllaw i gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch yn 2009/10'. Gallwch gael copi trwy ffonio 0800 731 9133 neu droi at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk.

Bydd y pecyn cymorth i fyfyrwyr y gallwch wneud cais amdano yn dibynnu ar yr adeg pan y gwnaethoch gychwyn ar eich astudiaethau. Mae hyn yn dibynnu ar:

- A wnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau ar ôl 1 Medi 2006;
- A wnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau cyn 1 Medi 2006, neu os gwnaethoch chi gymryd blwyddyn i ffwrdd yn 2005/06 ac erbyn 1 Awst 2005, eich bod wedi cael cadarnhad o'ch lle ar gyfer 2006/07 gan brifysgol neu goleg a ariennir gan arian cyhoeddus;
- Wedi cychwyn yn 2006/07 gan na fu modd i chi fanteisio ar eich lle mewn prifysgol neu goleg a ariennir gan arian cyhoeddus yn 2005/06 oherwydd canlyniadau lefel-A yr ydych wedi apelio yn eu

herbyn yn llwyddiannus;

- Wedi cychwyn ar eich cwrs presennol cyn Medi 2006 neu wedi trosglwyddo o gwrs a gychwynnodd cyn hynny, neu
- Yn cychwyn ar gwrs gradd 'ar-ddiwedd' ar ôl cwblhau Gradd Sylfaen, Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Genedlaethol Uwch (HND) neu gwrs Diploma Addysg Uwch yn 2005/06.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r help y gallech ei gael bob blwyddyn fel myfyriwr addysg uwch amser llawn.

Math o help sydd ar gael i fyfyrwyr a gychwynnodd ar eu hastudiaethau AR ÔL 1 Medi 2006	Faint?	O ble?
Grant Dysgu'r Cynulliad neu Grant Cymorth Arbennig	Hyd at £2,906	Awdurdod Lleol
Bwrsariaethau	Amrywiol – mae hyn yn dibynnu ar y brifysgol neu'r coleg.	Eich prifysgol neu goleg

Math o help sydd ar gael i fyfyrwyr a gychwynnodd ar eu hastudiaethau CYN 1 Medi 2006	Faint?	O ble?
Grant ar gyfer ffioedd dysgu	Hyd at £1,285	Awdurdod Lleol
Grant Addysg Uwch	Hyd at £1,000	Awdurdod Lleol

Math o help sydd ar gael i fyfyrwyr pryd bynnag y gwnaethant gychwyn ar eu hastudiaethau	Faint?	O ble?
benthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd dysgu neu er mwyn cyfrannu at ffioedd dysgu	Y ffi a godir arnoch chi, ond heb fod dros £3,225 mewn blwyddyn academaidd (£1,610 i fyfyrwyr mewn rhai amgylchiadau).	Awdurdod Lleol
benthyciad myfyrwyr ar gyfer cynhaliaeth	Hyd at £4,745 (£6,648 yn Llundain)	Awdurdod Lleol
Cronfa Ariannol wrth Gefn (neu gronfa gyfatebol)	Mae'n dibynnu ar angen, wedi'i seilio ar asesiad o'ch incwm a'ch alldaliadau.	Eich prifysgol neu goleg

Os nad ydych yn siŵr ynghylch y mathau o help sy'n berthnasol i chi, dylech holi'ch awdurdod lleol.

Os ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol, bydd modd i chi ohirio gorfod talu'ch ffioedd dysgu trwy drefnu benthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd dysgu. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd cyn i chi gychwyn ar eich cwrs, neu pan fyddwch yn astudio. Byddwch yn dechrau ad-dalu'ch ffioedd ar ôl i chi adael addysg uwch a phan fyddwch yn ennill dros £15,000 y flwyddyn.

Darparir cymorth ariannol i dalu costau byw trwy gyfrwng y benthyciad cynhaliaeth i fyfyrwyr. Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau cyn 1 Medi 2006, efallai y byddwch yn cael cymorth ychwanegol trwy gyfrwng Grant Addysg Uwch. Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau ar ôl 1 Medi 2006, byddwch yn gallu gwneud cais am Grant Dysgu'r Cynulliad neu, os ydych yn gymwys i gael budd-daliadau'r wladwriaeth fel Cymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Tai pan fyddwch yn astudio, y Grant Cymorth Arbennig.

Pryd bynnag y gwnaethoch chi gychwyn ar eich astudiaethau, os oes gennych blant, efallai y bydd modd i chi gael y Lwfans Dysgu i Rieni o hyd at £1,508 i dalu costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs a Grant Gofal Plant os ydych yn manteisio ar ofal plant cofrestredig neu gymeradwyedig.

Israddedigion rhan-amser (gan gynnwys myfyrwyr yr OU a dysgwyr o bell erail)

Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser ar gwrs sy'n cyfateb â 50% neu fwy o gwrs amser llawn cyfatebol, gallwch wneud cais am gymorth tuag at eich ffioedd a chostau'ch cwrs.

Yn 2008/09, bydd tair cyfradd wahanol o ran grant ffioedd, gan ddibynnu ar ba mor ddwys yw'ch cwrs. Er enghraifft, os ydych yn astudio cwrs sy'n cyfateb â 75% o gwrs amser llawn cyfatebol, gallech fod yn gymwys i gael grant ffioedd uwch na myfyrwr sy'n astudio cwrs sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn cyfatebol. Mae'r tabl isod yn nodi uchafswm y grant ffioedd sydd ar gael, gan ddibynnu ar eich cwrs.

Pa mor ddwys yw'ch cwrs	Grant ffioedd uchaf
Yn cyfateb â 50% i 59% o gwrs amser llawn cyfatebol	£635
Yn cyfateb â 60% i 74% o gwrs amser llawn cyfatebol	£765
Yn cyfateb â 75% neu fwy o gwrs amser llawn cyfatebol	£955

Bydd y grant ffioedd y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar y swm y bydd eich prifysgol neu goleg yn ei godi am eich cwrs hefyd. Gall myfyriwr sy'n astudio ar gyfradd sy'n cyfateb â 50% o gwrs amser llawn cyfatebol, gael uchafswm o £635 o'r ffi go iawn a godir, pa un bynnag yw'r isaf.

Yn ogystal â'r grant ffioedd, efallai y bydd gennych yr hawl i gael grant cwrs o hyd at £1,075 i dalu am gostau teithio, llyfrau a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

Bydd eich cymhwysra i gael y grantiau yn dibynnu ar eich incwm ac incwm eich partner. Os ydych yn fyfyrwr sengl heb unrhyw ddibynyddion ac os yw'ch incwm yn llai na £16,110, byddwch yn gymwys i gael y ddau grant yn llawn. Os ydych yn ennill rhwng £16,110 a £24,925, byddwch yn cael llai o gymorth. Os oes gennych bartner, byddwn yn anwybyddu gwerth £2,000 o'ch incwm cyfunol. Ac os oes gennych blant dibynnol, byddwn yn anwybyddu gwerth £2,000 o'ch incwm ar gyfer y plentyn cyntaf a gwerth £1,000 o'ch incwm ar gyfer pob plentyn dibynnol arall.

Efallai y bydd myfyrwyr rhan-amser y mae ganddynt gyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill, yn gymwys i gael cymorth ychwanegol. Dylech holi'ch awdurdod lleol neu'r adran gwasanaethau cyngori myfyrwyr am gyngor.

Cronfa Ariannol wrth Gefn

Mae prifysgolion a cholegau yn delio â'r Gronfa Ariannol wrth Gefn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent yn darparu help ariannol i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser (cyrsgiau sy'n cyfateb ag o leiaf 50% o gwrs amser llawn cyfatebol) a'r rhai sy'n dilyn modiwlau 'blasu' ac sy'n werth o leiaf 12 credyd (10% o gwrs amser llawn cyfatebol), sydd ar incwm isel ac y gallai fod angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt i barhau i ddilyn cwrs addysg uwch.

Yn fwy penodol, gall y cronfeydd:

- dalu costau byw a chostau penodol sy'n gysylltiedig â'r cwrs nad ydynt eisoes yn cael eu talu gan grantiau eraill;
- helpu myfyrwyr sy'n cael trafferthion ariannol;
- rhoi taliadau brys er mwyn delio ag argyfwng ariannol annisgwyl; a
- helpu myfyrwyr a allai fod yn ystyried rhoi'r gorau i'w cwrs oherwydd problemau ariannol.

Dylech gysylltu ag adran gwasanaethau myfyrwyr eich prifysgol neu goleg er mwyn darganfod a ydych yn gymwys i gael help gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn. Yn ogystal, gall myfyrwyr anabl y **mae eu hanabledd yn eu hatal rhag astudio 50% neu fwy o gwrs amser llawn cyfatebol**, wneud cais am gymorth gan y Gronfa Ariannol wrth Gefn, ar yr amod eu bod yn astudio o leiaf 25% o gwrs amser llawn cyfatebol.

Efallai y bydd modd i chi gael help i dalu cost asesiad ar gyfer anhawster dysgu penodol, a elwir yn asesiad diagnostig weithiau, gan gynnwys y gost o deithio i'r ganolfan asesu ac oddi yno, trwy gyfrwng y Gronfa Ariannol wrth Gefn.

Budd-daliadau

Mae'r wybodaeth a nodir yma yn wybodaeth gyffredinol. Os ydych o'r farn eich bod yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol, dylech gysylltu â'ch Canolfan Byd Gwaith, eich swyddfa Budd-dal Tai neu'ch gwasanaeth cynghori myfyrwyr.

Yn gyffredinol, nid oes gan fyfyrwyr amser llawn addysg uwch yr hawl i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm oni bai eu bod yn perthyn i un o'r grwpiau 'agored i niwed' (er enghraifft, rhieni unigol (sengl) neu fyfyrwyr anabl).

Fodd bynnag, os oes gennych bartner nad ydynt yn fyfyrwr ac y maent yn gymwys i gael unrhyw rai o'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, gall eich partner hawlio ar ran y ddau ohonoch. (Ystyrir eich incwm wrth asesu hawl eich partner i gael budd-daliadau.)

I nifer o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, bydd eu cymorth i fyfyrwyr yn rhy uchel i'w galluogi i gael y budd-daliadau mewn gwirionedd. Fodd bynnag, ni ystyrir mathau penodol o gymorth wrth gyfrifo incwm myfyriwr. Er mis Medi 2004, gall myfyrwyr mewn un o'r grwpiau agored i niwed sy'n byw mewn llety y mae'r brifysgol yn berchen arno, wneud cais am Fudd-dal Tai yn ystod y tymor nawr.

Efallai y bydd o gymorth i chi holi gwasanaethau cynghori eich undeb myfyrwyr neu'r adran gwasanaethau myfyrwyr am gyngor.

Mae'r tabl isod yn dangos y grwpiau agored i niwed perthnasol ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm a pha fudd-daliadau y gallent fod yn gymwys i'w cael.

Grwpiau agored i niwed	Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor (gweler nodyn 1)	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith
Rhieni unigol (sengl)	✓	✓	
Cyplau sy'n fyfyrwyr ac y mae ganddynt blant dibynnol	✓	✓ (gweler nodyn 2)	✓ (gweler nodyn 2)
Myfyrwyr sy'n gorymddwyn (gweler nodyn 3) ar ôl cyfnod o salwch neu o ofalu am rywun	✓		✓
Pobl anabl sy'n cael premiwm anabledd neu bremiwm anabledd difrifol	✓	✓	
Pobl anabl sy'n cael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (grant a delir dan y system cymorth i fyfyrwyr) oherwydd byddardod	✓	✓	
Pobl sy'n cael pensiwn y wladwriaeth	✓	(gweler nodyn 4)	

Nodyn 1 er mis Ebrill 2004, ni ddylai'r rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn orfod talu Treth Gyngor oni bai eu bod yn berchnogion preswyl y mae ganddynt unigolyn arall yn byw gyda nhw ac yn talu rhent iddynt

Nodyn 2 gall un o'r pâr hawlio yn ystod y gwyliau haf.

Nodyn 3 gorymddwyn yw pan fydd myfyriwr wedi gohirio ei astudiaethau (er enghraifft, oherwydd salwch neu er mwyn gofalu am rywun) ond er bod y rheswm dros y gohirio wedi dod i ben, ni all y myfyriwr barhau ar y cwrs eto.

Nodyn 4 o 6 Hydref 2003, dylai pobl sy'n cael pensiwn y wladwriaeth fod yn cael y Credyd Pensiwn yn hytrach na Chymhorthdal Incwm.

Sut mae Canolfan Byd Gwaith neu'r swyddfa Budd-dal Tai leol yn cyfrifo'r hyn yr ydych chi'n gymwys i'w gael?

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyllid i fyfyrwyr yn disodli budd-daliadau fel y prif ffynhonnell cymorth i fyfyrwyr, os ydynt yn penderfynu cael Benthyciad Cynhaliaeth i fyfyrwyr neu beidio. Er mwyn asesu'ch hawl i gael budd-daliadau, bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn cyfrifo'ch incwm wythnosol, gan gymharu hyn gyda swm y budd-dal y byddech yn ei gael bob wythnos.

Bydd nifer o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, yn gweld bod yr incwm cyllid i

fyfyrwyr a gânt yn uwch na swm y budd-dal y byddent yn ei gael fel arfer. Gallai hyn arwain at y myfyriwr yn cael llai o fudd-daliadau, neu ddim budd-daliadau o gwbl. Fodd bynnag, ni fydd rhai mathau o gyllid i fyfyrwyr yn cael eu hystyried wrth gyfrifo swm y budd-dal y bydd gan fyfyrwr yr hawl i'w gael. Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o gyllid i fyfyrwyr y bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn eu hystyried pan fyddant yn cyfrifo hawl myfyriwr i gael budd-daliadau, a'r mathau o gyllid i fyfyrwyr na fyddant yn eu hystyried.

Cyllid i fyfyrwyr y bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ei ystyried fel rhan o'ch incwm

- Y rhan fwyaf o unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth i fyfyrwyr y bydd gennych yr hawl i'w gael, hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio cael hwn
- Grant Dysgu'r Cynulliad/Grant Cynhaliaeth
- Grant Oedolion Dibynnol
- Taliadau o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn er mwyn helpu i dalu costau byw cyffredinol (er mwyn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yr holl daliad, neu ran o'r taliad, yn cael ei ystyried)
- Bwrsariaethau nad eu diben yw talu costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, neu gostau ofal plant

Cyllid i fyfyrwyr na fydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ei ystyried fel rhan o'ch incwm

- Grant ffioedd dysgu
- benthyciad myfyriwr ar gyfer ffioedd dysgu
- Grant Cymorth Arbennig
- Grant Addysg Uwch
- Grant Gofal Plant
- Lwfans Dysgu i Rieni
- Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl
- Taliadau o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn nad eu diben yw talu costau byw cyffredinol
- Bwrsariaethau a roddir er mwyn talu costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, neu gostau gofal plant

Os ydych yn cael mathau eraill o gyllid i fyfyrwyr, dylech gysylltu â'ch cynghorydd myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg er mwyn darganfod a ydynt yn cael eu hystyried fel incwm pan fydd eich hawl i gael budd-daliadau yn cael ei gyfrifo.

Oherwydd bod y Benthyciad Cynhaliaeth i fyfyrwyr yn rhoi help tuag at eich costau sy'n gysylltiedig â'ch cwrs, wrth gyfrifo'ch incwm wythnosol, ni fydd swm penodedig i'w wario ar lyfrau, offer a chostau teithio yn cael ei ystyried. Ni fydd £10 ychwanegol o'ch incwm wythnosol yn cael ei ystyried hefyd. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2008/09, y symiau penodedig nad oeddent yn cael eu hystyried fel incwm oedd £380 tuag at gost llyfrau ac offer a £295 am gostau teithio. O fis Awst 2009, bydd gwasanaeth cynghori myfyrwyr eich prifysgol neu goleg yn gallu'ch hysbysu o'r symiau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2009/10. Mae'r Cymhorthdal Incwm a'r Lwfans Ceisio Gwaith wedi'i seilio ar incwm, yn fudd-daliadau a delir i oedolion yn unig. Erbyn hyn, bydd yr unig rannau a dalwyd ar gyfer plant yn flaenorol, yn cael eu cynnwys yn y credydau treth a delir gan Gyllid a Thollau EM. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan Ganolfan Byd Gwaith neu Gyllid a Thollau EM.

Ceir Llinell Ymholiadau gyfrinachol ac am ddim ynghylch budd-daliadau i bobl sydd ag anableddau a'u gofalwyr. Y rhif yw 0800 882 200 (ffôn testun: 0800 243 355). Gallwch gysylltu â

Skill, Swyddfa Genedlaethol i Fyfyrwyr ag Anableddau hefyd i ofyn am wybodaeth ynghylch budd-daliadau ac astudio. Mae modd gweld manylion cyswllt Skill ar dudalen 30.

21 Ble mae modd i mi gael rhagor o wybodaeth?

Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru

Gall myfyrwyr sy'n byw yng **Nghymru** ddefnyddio **Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru (CGCMC)** i fanteisio ar ystod o wybodaeth ynghylch cyllid i fyfyrwyr.

Mae CGCMC yn darparu gwasanaethau dwyieithog ac yn rhoi cyngor ynghylch cwestiynau cyffredinol megis:

- pa help ariannol sydd ar gael;
- yr amserlen a'r broses ymgeisio;
- cwestiynau am y gwasanaethau ar-lein yn www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk;
- cynnydd wrth asesu'ch cais; a
- thalu'ch benthyciad.

Gallwch gysylltu â CGCMC ar 0845 602 8845 o 8yb tan 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn.

Yn ogystal, gallwch ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael trwy droi at

www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk i:

- ddarganfod faint o fenthyciad a help tuag at eich ffioedd yr ydych yn debygol o'i gael gan ddefnyddio'r 'cyfrifwr hawl';

- cadw golwg ar gynnydd eich cais;
- diweddarw'ch cyfeiriad a'ch manylion cyswllt eraill;
- gweld copïau o lythyrau a anfonwyd atoch chi;
- holi pryd y byddwch yn cael eich talu nesaf; a
- gofyn cwestiynau.

Awdurdodau lleol

Gall myfyrwyr sy'n byw yng **Nghymru** gysylltu â'u **hawdurdod lleol**. Mae awdurdodau lleol yn cynnig cyngor manwl ynghylch y cymorth y mae'n debygol y bydd gennych yr hawl i'w gael a chanlyniad yr asesiad o'ch cais.

Yn ogystal, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol os bydd angen i chi gael copi papur o ffurflen gais. Gallwch weld rhestr o gysylltiadau awdurdodau lleol trwy droi at:

www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Os ydych yn yr ysgol o hyd, gall eich athro/athrawes gyrfaoedd roi cyfeiriad a rhif ffôn eich awdurdod lleol i chi.

Llinell wybodaeth cymorth i fyfyrwyr

Gall myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ffonio **0800 731 9133** i archebu copi am ddim o unrhyw rai o'n canllawiau.

Os ydych yn byw yn Lloegr fel

arfer, dylech gysylltu â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi fel arfer i gael gwybod am y trefniadau cyllid i fyfyrwyr, neu gallwch ffonio'r Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid ar 0845 6077577 neu ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein trwy droi at www.studentfinancedirect.co.uk.

Os ydych yn byw yn yr Alban fel

arfer, dylech gysylltu â'r Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban i gael gwybod am y trefniadau cyllid i fyfyrwyr yn yr Alban. Y cyfeiriad yw:

The Student Awards Agency for Scotland

Gyle View House

3 Redheughs Rigg

South Gyle

Edinburgh EH12 9HH.

Ffôn: 0845 111 1711

E-bost: saas.geu@scotland.gsi.gov.uk

Gwefan: www.saas.gov.uk

Os ydych yn byw yng Ngogledd

Iwerddon fel arfer, dylech gysylltu â'r Bwrdd Llyfrgelloedd ac Addysg ar gyfer yr ardal yr ydych yn byw ynddi fel arfer.

Gallwch weld manylion cyswllt ar gyfer y Byrddau Llyfrgelloedd ac Addysg trwy droi at www.education-support.org.uk.

Os ydych yn fyfyrwr gyda'r Brifysgol Agored, dylech gysylltu â'r OU. Y cyfeiriad yw:

The Open University

Disabled Students Allowance Office,
Walton Hall

Milton Keynes MK7 6ZN.

Ffôn: 01908 654136

Ffôn testun: 01908 659955

Ffacs: 01908 659956

E-bost: DSA-queries@open.ac.uk

Gwefan: www.open.ac.uk

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Skill: Swyddfa Genedlaethol i Fyfrwyr ag Anableddau

Gwasanaeth Gwybodaeth

(Dydd Mawrth 11.30yb tan 1.30yh,

Dydd Iau 1.30yh tan 3.30yh)

Ffôn: 0800 328 5050

Minicom: 0800 068 2422

Ffacs: 020 7450 0650

E-bost: info@skill.org.uk

Gwefan: www.skill.org.uk

Skill Cymru

Suite 14

2il Lawr

The Executive Centre

Temple Court

Heol yr Eglwys Gadeiriol

Caerdydd CF11 9HA

Ffôn: 02920 786506

Mae Skill yn elusen genedlaethol sy'n hyrwyddo cyfleoedd addysg bellach neu addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion yn y DU y mae ganddynt unrhyw fath o anabledd. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrynnau gwybodaeth ynghylch DSAs ac addysg uwch i fyfrwyr anabl a myfyrwyr y mae ganddynt anawsterau dysgu penodol. Mae'r llyfrynnau ar gael ar wefan Skill sef www.skill.org.uk

Gall gwasanaeth gwybodaeth Skill ateb cwestiynau ynghylch addysg uwch ac anabledd.

Am wybodaeth ynghylch sefydliadau y mae ganddynt arbenigedd ynghylch eich anabledd neu'ch anhawster dysgu penodol chi, mae Skill wedi cyhoeddi llyfryn gwybodaeth hefyd o'r enw '**Organisations Offering Advice or Services to Disabled Students**' sy'n nodi manylion cyswllt. Mae'r llyfrynnau ar gael ar wefan Skill sef www.skill.org.uk

Disability Rights Commission (DRC)

Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)

Llinell Gymorth DRC

Freepost MID 02164

Stratford-upon-Avon CV37 9BR.

Ffôn: 08457 622 633

Ffôn testun: 08457 622 644

Ffacs: 08457 778 878

E-bost: defnyddiwch un o'r ffurflenni sydd ar gael ar wefan DRC sef www.drc-gb.org/whatwedo/helplineenquiry.asp

**Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr
Cymru (UCM Cymru)**

13 Lambourne Crescent,
Parc Busnes Caerdydd,
Llanisien CF14 5GF
Ffôn: (029) 2068 0070
Ffacs: (029) 2075 7083
E-bost: office@nus-wales.org.uk

**Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr
(NUS)**

2nd Floor
Centro 3
19 Mandela Street
London NW1 0DU.
Ffôn: 0871 221 8221
Ffacs: 0871 221 8222
E-bost: nusuk@nus.org.uk
Gwefan: www.nusonline.co.uk

**Cyngor Gofal Cymru (Cyngor
Gofal)**

Tîm Ariannu Myfyrwyr
South Gate House
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0845 070 0249
Minicom: 02920 780680
Ffacs: 02920 780674
E-bost:
studentfunding@ccwales.org.uk
Gwefan: www.ccwales.org.uk

Atodiad 1

Amodau personol er mwyn bod yn gymwys i gael DSAs

Bydd eich Awdurdod Lleol (neu'r OU) yn penderfynu a ydych yn bodloni'r gofyniad preswyllo arferol i fod yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu, benthyciad cynhaliaeth a grantiau. Mae'r meini prawf preswyllo yn gymhleth ac fe'u nodir ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

I'r rhai nad ydynt yn ddinasyddion y DU, neu ddinasyddion y DU y mae ganddynt statws preswyllydd sefydlog ac y maent wedi manteisio ar eu hawl preswyllo rywle arall, dylech gysylltu â'ch Awdurdod Lleol hefyd.

Fel arfer, i ddinasyddion y DU, rhaid i chi fodloni'r gofynion isod sy'n ymwneud â'ch manylion preswyllo ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs (gweler nodyn 1 isod). Ar y dyddiad hwnnw, rhaid eich bod:

- wedi bod yn 'preswyllo fel arfer' (gweler nodyn 2 isod) yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am y tair blynedd yn union cyn y dyddiad hwn (heb fod hyn yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn);
- yn preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Nodyn 1: mae blynyddoedd academaidd yn cychwyn fel a ganlyn – 1 Medi ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn nhymor yr hydref, 1 Ionawr ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn nhymor y gaeaf,

1 Ebrill ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn nhymor y gwanwyn, ac 1 Gorffennaf ar gyfer cwrs sy'n cychwyn yn nhymor yr haf.

Nodyn 2: caiff preswyllo fel arfer ei ddiffinio fel 'preswyllo cyson ac arferol trwy ddewis ac am ddiben sefydlog ac eithrio absenoldebau dros dro neu achlysurol.'

Os nad oeddech yn y wlad hon oherwydd eich bod chi neu'ch teulu wedi cael eich cyflogi mewn gwlad dramor dros dro, efallai y byddwch yn cael eich trin fel rhywun nad yw eu cyfnod preswyllo yn y DU wedi cael ei amharu. Gallwch weld rhagor o fanylion yn ein canllaw 'Cymorth i fyfyrwyr i'r rhai sy'n byw neu sy'n gweithio mewn gwlad dramor', sydd ar gael trwy droi at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk.

Os ydych yn byw yma yn bennaf er mwyn cael addysg amser llawn, a byddech wedi byw rywle arall fel arfer, ni fyddwch fel arfer yn cael eich trin fel rhywun sydd wedi bod yn preswyllo yn y DU (am eithriadau i'r rheol hon, trowch at wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sef www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk). Os oeddech i ffwrdd o'r wlad hon yn ystod y tair blynedd, neu rywfaint o'r amser yn ystod y tair blynedd, oherwydd eich bod chi, eich gwraig, eich gŵr, eich partner sifil, neu un o'ch rhieni yn gwasanaethu mewn gwlad dramor fel aelod o'r lluoedd arfog parhaol (y fyddin, y llynges neu'r llu awyr),

byddwch chi, eich gwraig, eich gŵr, eich partner sifil neu'ch rhiant yn cael eich trin fel rhywun a gyflogwyd mewn gwlad dramor dros dro yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni fydd hyn yn eich atal rhag bod yn gymwys i gael cymorth i dalu eich ffioedd neu'ch costau byw.

Atodiad 2

Grŵp Sicrhau Ansawdd DSA (GSA DSA)

Mae Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (GSA DSA) yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau, y Brifysgol Agored, Uned Grantiau GIG, SKILL, NUS, aseswyr DSA a chyflenwyr offer DSA. Mae wedi cynllunio cynllun er mwyn asesu ansawdd gwaith y rhai sy'n cynnal asesiadau DSA ac sy'n cyflenwi'r offer argymelledig. Mae GSA DSA, a gefnogir gan yr Adran dros Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS), wedi pennu rhai mesurau, a elwir yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd (FfSA), a ddefnyddir i asesu ansawdd a'r egwyddorion er mwyn cynnal cynllun parhaus i asesu ansawdd gwaith y bobl a'r sefydliadau hynny sy'n cynnal asesiadau DSA ac sy'n cyflenwi offer.

Tua bob tair blynedd, cynhelir archwiliad o'r canolfannau asesu a'r cyflenwyr sy'n cofrestru ar gyfer y cynllun. Mae gan GSA DSA ei wefan ei hun ac mae'n darparu rhestr o'r canolfannau asesu a'r cyflenwyr hynny sy'n bodloni'r mesurau arolygu.

Mae'r rhestr yn nodi:

- cyflenwyr a chanolfannau cofrestredig, mewn geiriau eraill, y rhai sy'n aros am archwiliad achredu cychwynnol; a
- chanolfannau a chyflenwyr a achredwyd, mewn geiriau eraill, y rhai sydd wedi bodloni amodau arolygiad archwilio.

Mae'r holl ganolfannau asesu cofrestredig wedi cael eu trin fel rhai sydd o fewn y fframwaith, ac argymhellwyd y dylai awdurdodau lleol (neu'r OU) ddefnyddio canolfannau achrededig neu gofrestredig er mwyn cynnal asesiadau DSA.

Atodiad 3

Cymorth gan sefydliadau eraill

Myfyrwyr GIG israddedig ac ôl-raddedig

Nid yw'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr a fydd yn cael bwrsariaeth GIG ar gyfer eu cwrs. Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSAs) ar gael fel rhan o Gynllun Bwrsariaeth GIG, y gallai myfyrwyr diploma a gradd bwrsariaeth GIG fod yn gymwys ar eu cyfer. Os byddwch yn cael bwrsariaeth GIG, neu os ydych yn bwriadu gwneud cais am un, dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg i holi am fanylion y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl dan Gynllun Bwrsariaeth GIG.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Bwrsariaeth GIG, a'r DSAs y mae hyn yn ei gynnig, yng nghanllaw Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, '**Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr Gofal Iechyd yng Nghymru**'. Gallwch gael copi o'r llyfryn ar-lein trwy droi at www.nliah.wales.nhs.uk

Am wybodaeth bellach ynghylch bwrsariaethau GIG yng Nghymru, cysylltwch ag:

Uned Dyfarniadau Myfyrwyr GIG
Cymru
3ydd Llawr
14 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2019 6167 (Ymholiadau ynghylch Bwrsariaethau)

Am wybodaeth ynghylch bwrsariaethau GIG yn Lloegr, cysylltwch â:

The Customer Services Team
NHS Student Bursaries
Hesketh House
200-220 Broadway
Fleetwood
FY7 8SS
Ffôn: 0845 358 6655
Ffacs: 01253 774490
E-bost: enquiries@nhspa.gov.uk
Gwefan: www.nhspa.gov.uk/sgu

Unigolion ar secondiad o GIG

Sylwer nad yw myfyrwyr gofal iechyd a gyflogir gan ymddiriedolaethau GIG ac sy'n cael eu secondio (eu trosglwyddo dros dro) i gyrsiau gofal iechyd, yn gymwys i gael bwrsariaethau GIG, felly ni allant gael DSAs GIG. Gall y myfyrwyr hyn, y mae GIG yn parhau i dalu eu cyflog a'u ffioedd dysgu, gael cymorth DSA dan y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr os ydynt yn bodloni'r amodau arferol.

Ôl-raddedigion sy'n cael eu hariannu gan gynghorau ymchwil

Mae DSAs ar gael i fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan gynghorau ymchwil os bydd yn rhaid i'r myfyriwr dalu costau ychwanegol yn ystod eu cyfnod astudio ôl-raddedig o ganlyniad i'w hanabledd. Mae manylion ynghylch lefel a math y cymorth DSA a gynigir, a gwybodaeth ynghylch sut i wneud cais amdano, ar gael ar wefan pob cyngor ymchwil.

- Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (trowch at www.ahrc.ac.uk)
- Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (trowch at www.bbsrc.ac.uk)
- Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (trowch at www.epsrc.ac.uk)
- Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (trowch at www.esrc.ac.uk)
- Cyngor Ymchwil Feddygol (trowch at www.mrc.ac.uk)
- Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (trowch at www.nerc.ac.uk)
- Y Cyngor Ymchwil Ffiseg Ronynnol a Seryddiaeth (trowch at www.pparc.ac.uk)

Dylech siarad gyda'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs gan y cynghorau ymchwil oherwydd byddant yn gallu cynnig gwybodaeth a help. Fel arfer, bydd

angen i chi ddarparu prawf o'ch anabledd neu'ch anhawster dysgu penodol ac asesiad anghenion DSA a gynhaliwyd yn ddiweddar pan fo hynny'n briodol.

Fel arfer, bydd y cynghorau ymchwil yn helpu i dalu am asesiad anghenion DSA.

Bwrsariaethau i raddedigion amser llawn sy'n dilyn cwrs gwaith cymdeithasol ôl-raddedig cymeradwyedig

Mae 'bwrsariaeth ôl-raddedig' Cyngor Gofal Cymru ar gael i raddedigion (neu'r rhai y mae ganddynt gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan brifysgolion) sy'n dilyn cwrs gwaith cymdeithasol ôl-raddedig amser llawn mewn coleg cymeradwyedig. Ceir lwfansau yn y fwrariaeth ôl-raddedig i gynorthwyo myfyrwyr y mae ganddynt anableddau. Am ragor o wybodaeth am y fwrariaeth ôl-raddedig, trowch at dudalen ariannu myfyrwyr/gyrfaedd y wefan sef www.ccwales.org.uk.

Cymorth ar gyfer cwrs ôl-raddedig gan eich prifysgol neu goleg

Os yw'ch prifysgol neu goleg yn darparu cymorth sy'n cyfateb â DSAs ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig, ni fyddwch yn gallu cael DSA ôl-raddedig gan eich awdurdod lleol. **Ni** ddylech gynnwys unrhyw daliad y byddwch yn ei gael gan Gronfa Ariannol Wrth Gefn eich prifysgol neu goleg.

25 Mynegai

A Ad-dalu'ch DSAs	18	G Gofynion oedran	7
Ailadrodd rhan o'r cwrs	19	Gofyniad ynghylch preswyllo	32
Anabledd (DDA)	8	Gogledd Iwerddon	29
Anawsterau dysgu penodol	10	Grant Addysg Uwch	22-23
Anawsterau iechyd meddwl	10	Grant Cymorth Arbennig	20, 23, 27
Asesiad, anghenion DSA	10, 16	Grant Dysgu'r Cynulliad	20-21
Asesiad incwm	14	Grŵp Sicrhau Ansawdd (GSA)	33
B Benthyciadau	19	Gweithdrefnau apelio	19
Budd-daliadau	25	Gweithdrefn gwyno	19, 20
Bwrsariaeth GIG	34	Gwneud cais am DSAs	11
C Canolfannau asesu	17, 25	Hyfforddiant i ddefnyddio offer arbenigol	16
Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)	30	Hyfforddiant Sgiliau Astudio	16
Costau teithio	17	L Llogi offer	16
Cronfeydd Ariannol wrth Gefn	24	Lwfans ar gyfer cynorthwy-ydd anfeddygol	6, 14-16
Cwrs rhan-amser a grantiau ffioedd	23	Lwfans Cyffredinol	16
Cymhwysra (cyffredinol)	32	Lwfans offer arbenigol	15
Myfyrwyr yr UE (heb fod o'r DU)	6	M Myfyrwyr israddedig amser llawn	11
Myfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser	6	Myfyrwyr israddedig rhan-amser	12
Myfyrwyr ôl-raddedig	6	Myfyrwyr ôl-raddedig	12
Myfyrwyr y Brifysgol Agored	7	Myfyrwyr y Brifysgol Agored	12
Cyngor Gofal Cymru	7, 31	Myfyrwyr ôl-raddedig	5, 6, 12, 15
Cynghorau ymchwil	4, 7, 35	Myfyrwyr y Brifysgol Agored	30
Cynghorydd anabledd	5, 8, 9	P Prynu offer arbenigol	15
Cyrsiau hyfforddi athrawon	6	S Skill	9, 28, 30
Cyrsiau rhyngosod	6	T Talu DSAs	14
D Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDA)	8	Trefniadau ar gyfer arholiadau	9
Deddf Gwahaniaethu ar sail anabledd (DDA)	8	Trosglwyddo cyrsiau	19
DSA - asesiad anghenion	10, 16	Tystiolaeth o anabledd	10
Dysgu o Bell	5, 15	U Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	31
Dyslecsia	10	Undeb Myfyrwyr	20, 25, 31
Dyspracsia	10	Y Yr Alban	4, 29
		Yswiriant	15